# DATGANIAD O'R RHESYMAU

## GWAREDU CLUSTOGAU ARAFU AC ADEILADU TWMPATHAU FFORDD NEWYDD – B4459, PENCADER

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu:

a) gwaredu'r glustog arafu presennol o leoliad ar hyd ffordd y B4459 ym Mhencader, 45 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Heol Glanawmor, ac adeiladu yn ei le twmpath ffordd estynedig newydd â brig gwastad a fydd yn ymestyn ar draws y ffordd gerbydau yn ei chyfanrwydd; a

b) gwaredu'r glustog arafu presennol o leoliad ar hyd ffordd y B4459 ym Mhencader, 45 metr i'r de o'r gyffordd â Heol Glanawmor, ac adeiladu yn ei le twmpath ffordd daprog â brig crwn nad yw'n ymestyn yn llwyr o'r naill gwrbyn i'r llall.

Bwriad y mesurau arafu traffig arfaethedig yw gostwng cyflymder cerbydau a gwella diogelwch ffordd yn gyffredinol. Bydd y twmpath ffordd estynedig hefyd yn cynnwys croesfan reoledig â signalau i ddarparu man croesi mwy diogel a hygyrch i gerddwyr.